



Papur Gwybodaeth Manwl

Cyllideb y Deyrnas Unedig

Mawrth 2020

Cyhoeddodd y Canghellor Rishi Sunak ei Gyllideb gyntaf ar 11 Mawrth, ar ôl bod yn ei swydd am lai na phedair wythnos. Yn ôl y disgwyl, roedd y cyhoeddiad yn canolbwyntio ar y cymorth a'r ysgogiad i fynd i'r afael â Coronafeirws. Cydnabuwyd nad dyma'r unig her sy'n wynebu'r gwlad, gyda nifer o gyhoeddiadau arwyddocaol hefyd ar bolisi llesiant, gwario ar seilwaith, a datgarboneiddio.

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn cyhoeddi'r cyhoeddiadau brys i ehangu mynediad i gymorth ariannol drwy'r system llesiant ond byddem yn annog camau pellach i atal caledi a achosir gan gosbau yn ystod y cyfnod digyffelyb hwn.

Gydag addewid o gyllid ychwanegol i Cymru, hoffem yn awr weld Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar eu haddewid i roi blaenoriaeth i wariant ychwanegol ar gyfer y Grant Cymorth Tai, sy'n cyllido gwasanaethau i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru. Mae hefyd angen mwy o fuddsoddiad i gefnogi cymdeithasau tai i adeiladu 75,000 o gartrefi fforddiadwy di-garbon a chreu 50,000 swydd erbyn 2036.

Mae'r prif benawdau o'r gyllideb yn cynnwys:

- Pecyn ysgogiad ariannol £30bn i drin yr achosion o COVID-19
- Cronfa ymateb argyfwng £5bn ar gyfer y GIG a gwasanaethau cymdeithasol i drin effeithiau COVID-19



- Diddymu trethi busnes ar gyfer y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch
- Ad-dalu tâl salwch statudol am hyd at 14 diwrnod ar gyfer busnesau gyda 250 neu lai o staff
- Caiff yr isafswm llawr incwm ei ddileu dros dro ar gyfer pobl hunangyflogedig sy'n hawlio Credyd Cynhwysol y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt neu sy'n dewis hunan-ynysu
- Ymrwymo £175bn i wariant seilwaith dros y 5 mlynedd nesaf
- £360mm ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Cymru

Cyhoeddiadau manwl am gyllid:

Coronafeirws

Gyda coronafeirws ym mhenawdau'r newyddion ym mhob rhan o'r byd, datgelodd Cyllideb Llywodraeth Unedig pecyn £30bn ar gyfer COVID-19 i helpu lleihau'r effaith. Cyfeiriwyd cymorth at iechyd, busnesau ac unigolion ar ffurf mwy o ddarpariaeth llesiant. Mae'r mesurau'n cynnwys £5bn ar gyfer cronfa ymateb argyfwng ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a gwasanaethau cyhoeddus. Ymhellach, cafodd tâl salwch statudol ei ymestyn i gynnwys unigolion a gafodd gyngor i hunan-ynysu a phobl sy'n gofalu am rai o fewn yr un aelwyd sy'n arddangos symptomau COVID-19. Caiff trethi busnes ar gyfer rhai yn y sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden gyda gwerth trethiannol o lai na £51,000 dros dro, a sefydlir Cronfa Benthycia Ymyriad Busnes Coronafeirws dros ben, a gyflwynir gan Fanc Busnes Prydain, i gynnig benthyciadau o hyd at £1.2mn i gefnogi busnesau bach a chanolig.

Credyd Cynhwysol

Cyhoeddodd y Canghellor ddau fesur argyfwng i ddarparu cymorth ychwanegol drwy'r system llesiant mewn ymateb i'r achosion COVID-19.

- Caiff yr isafswm llawr incwm ei ddileu dros dro ar gyfer pobl hunangyflogedig sy'n hawlio Credyd Cynhwysol y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt neu sy'n dewis hunan-ynysu.
- Caiff y cyfnod aros ar gyfer ESA (arddull newydd) seiliedig ar gyfraniadau ei ddileu dros dro.
- Mesurau eraill yn cynnwys arweiniad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau na fyddant yn wynebu cosbau am beidio mynychu



apwyntiadau oherwydd yr haint, cyn belled â'u bod yn hysbysu eu hyfforddydd gwaith ymlaen llaw.

Newidiadau manwl yn y Gyllideb a fanylwyd yn flaenorol yn cynnwys:

- Newid amserlen ar gyfer ymfudo a reolir, gan ddod i ben ym mis Medi 2024.
- Eithriadau ychwanegol o gyfradd Rhannu Llety y Lwfans Tai Lleol ar gyfer rhai grwpiau.
- O fis Hydref 2021, cynyddu'r cyfnod ad-dalu ar gyfer blaendaliadau dan y Credyd Cynhwysol 24 mis a gostwng yr uchafswm cyfradd didyniadau o 30% i 25% yn y lwfans safonol.

Gwasanaethau Cyhoeddus

Cafodd Setliad y GIG ei gadarnhau ym mis Ionawr 2019, gyda £34bn ychwanegol y flwyddyn erbyn 2023-24. Fe wnaeth y Gyllideb hefyd ail-gyhoeddi £750mn ychwanegol o gyllid i ddechrau recriwtio swyddogion heddlu ychwanegol, a £114mn yn 2020-21 ar gyfer mesurau gwrth-derfysgaeth. Ymhellach, bydd y llywodraeth yn darparu £20mn i'r Gwasanaeth Tân ac Achub i'w galluogi i gynyddu gallu arolygon tân gorfodaeth a meithrin gallu i ymateb i ganfyddiadau Ymchwiliad Tŵr Grenfell, drwy fuddsoddi mewn hyfforddiant, offer a chanolfan strategol cryfach ar gyfer y gwasanaeth tân.

Tai Fforddiadwy

Caiff y gyfradd am fenthyca PWLB gyda disgownt i gefnogi tai cymdeithasol ei ostwng i 80 pwynt sylfaenol dros giltiau ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr, yr Alban a Chymru.

Gall aelodau hefyd fod â ddiddordeb gwybod fod y llywodraeth wedi ymrwmo i greu o leiaf 1 miliwn o gartrefi newydd yn Lloegr erbyn diwedd tymor hwn y Senedd a 300,000 cartref y flwyddyn ar gyfartaledd erbyn canol 2020. Mae'r Gyllideb yn cyflwyno pecyn o fuddsoddiad yn cynnwys £12.2 biliwn ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Fforddiadwy. Ymhellach bydd Ysgrifennydd Gwladol Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn cyflwyno diwygiadau cynhwysfawr i'r system cynllunio.



Diogelwch Adeiladu

Yn dilyn cyngor arbenigol, cadarnhaodd Rishi Sunak y byddai £1bn ychwanegol ar gael ar gyfer Cronfa Diogelwch Adeiladu i dynnu cladin anniogel o adeiladau preswyl dros 18 metr. Bwriedir i hyn fynd i'r afael â phob cladin llosgadwy anniogel, nid yn unig ACM, ar gyfer pob adeilad preswyl preifat a chymdeithasol. Yng Nghymru, mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i wahardd defnyddio deunyddiau llosgadwy mewn cladin ar adeiladau o 18m neu fwy ar bob adeilad preswyl.

Cyllid Llywodraeth Cymru

Bydd grant bloc Llywodraeth Cymru yn cynyddu gan dros £360 miliwn hyd at 2020-21 cyn addasiadau ar gyfer datganoli trethiant. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 5% mewn cyllid canlyniadol Barnett a gytunwyd fel rhan o fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru yn 2016.

Ers gadael yr Undeb Ewropeaidd, nod y Gronfa Rhannu Ffyniant yw trin gwahaniaethau a diffyg cydraddoldeb mewn ardaloedd datblygu economaidd. Addawodd y Gyllideb heddiw i , fan leiaf, gyfateb y lefelau presennol o gyllid i Gymru o gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd.

Fe wnaeth y Gyllideb hefyd gyhoeddi £242mn i gyllido pedwar Bargen Ddinesig a Thwf arall ar draws yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn adeiladu ar y £2.5 biliwn a ddyrannwyd eisoes i fargeinion presennol.

Economi gwyrddach

Fe wnaeth y llywodraeth hefyd ein hatgoffa drwy'r gyllideb y bydd angen i'n holl gartrefi fod yn rhai di-garbon erbyn 2050 fan bellaf. Cyflawnid hyn drwy ddisodli nwy naturiol a thanwyddau ffosil eraill gyda amgennau carbon isel – y dywedwyd eu bod yn debygol o fod yn gymysgedd o nwy gwyrdd, pypiau gwres a rhwydweithiau gwres.

Er bod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar hyn o bryd ar sicrhau llwybrau i EPC A ar gyfer darparwyr tai cymdeithasol, mae Cyllideb heddiw yn cyhoeddi cyflymu datgarboneiddio'r grid nwy drwy gefnogi cynllun biomethan, a gyllidir gan Ardoll Nwy Gwyrdd. Bydd y llywodraeth hefyd yn cefnogi gosod pypiau gwres a boeleri biomas drwy gyflwyno Cynllun Cymorth Gwres Carbon Isel. Mae'r Gyllideb hefyd wedi cadarnhau cyllid am flwyddyn bellach hyd 2022 i'r Prosiect Buddsoddi Rhwydweithiau Gwres ac wedi darparu £270 miliwn o gyllid newydd i alluogi rhwydweithiau gwres newydd a phresennol i fabwysiadu ffynonellau gwres carbon isel.



Seilwaith

Roedd llawer o'r cyhoeddiadau a wnaed yn y Gyllideb yng nghyswllt seilwaith yn cyfeirio at Loegr yn unig, fodd bynnag bydd Cymru yn manteisio o gyllid canlyniadol. Cyhoeddwyd yr ail Strategaeth Buddsoddi Ffyrdd i wario dros £27bn rhwng 2020 a 2075. Cyhoeddwyd hefyd Gronfa Tyllau Ffordd newydd i ddarparu 3500mn y flwyddyn, gan arwain at gynnydd o 50% mewn cyllidebau lleol cynnal a chadw ffyrdd yn 2020-21.

Ymrwymodd y llywodraeth £5bn i gefnogi ymestyn band eang gigabit-alluog yn y 20% mwyaf anhygyrch yn y wlad. Bydd y buddsoddiad hwn o fudd neilltuol i ardaloedd gwledig. Ymhellach, cyhoeddodd y Gyllideb y cytundeb Rhannu Rhwydwaith Gwledig rhwng llywodraeth a diwydiant fydd yn gweld hyd at £510mn yn cael ei ymrwymo i wella gorchudd symudol 4G. Cadarnhaodd y llywodraeth ei buddsoddiad o £2.6 biliwn mewn amddiffynfeydd llifogydd i sicrhau y caiff ardaloedd mewn risg eu diogelu'n well.